


Y broses hunan-osod

Pan fydd angen prif bibell ddŵr newydd ar safle datblygiad, gall y datblygwr ddewis darparwr hunan-osod (SLP) ardystiedig i gwblhau'r gwaith sy'n agored i gystadleuaeth*.

Dyma'r camau yn y broses hunan-osod:



HAFREN

DYFRDWCY

severn dee

Gwerth Asedau Taliadau

Unwaith y bydd y samplau wedi pasio, byddwn yn hysbysu'r SLP er mwyn cadarnhau bod y brif bibell bellach yn ein perchnogaeth gyda thystysgrif breinio. Ar y cam hwn, bydd angen i'r SLP gyflwyno Cais Gwerth Asedau I wneud cais ffurfiol am daliad gan HD trwy anfoneb.

Cysylltiadau gwasanaethau

Â'r brif bibell bellach wedi'i phrofi a HD yn fodlon bod ansawdd y dŵr yn gywir, gall yr SLP nawr ddechrau gwneud cysylltiadau gwasanaeth o'r brif bibell newydd i'r eiddo newydd ar y safle. Bydd angen i'r SLP roi gwybod i HD eu bod yn bwriadu gwneud cysylltiadau trwy ddarparu ffurflen 4 (FFURFLEN 4). Ar y cam hwn, bydd angen cyfeiriad post llawn yr eiddo arnom ni er mwyn sicrhau y gallwn greu'r cyfrif bilio cyn gynted ag y bydd yr eiddo'n derbyn dŵr. Byddwn yn creu anfoneb hefyd am ein tâl hunan-osod, a bydd angen talu hwnnw o fewn 35 diwrnod. Bydd mesurydd yn cael ei ddarparu a'i gludo yn uniongyrchol i'r safle, yn barod ar gyfer yr adeg pan gaiff y cysylltiad ei wneud.

Darparu manylion y mesurydd

Unwaith y bydd y cysylltiad wedi'i gwblhau a'r mesurydd wedi'i osod, mae angen i'r SLP ddarparu manylion a darlleniad o'r mesurydd newydd o fewn 3 diwrnod gwaith (FFURFLEN 5). Gellir dychwelyd y wybodaeth hon atom ni trwy NewConnections.SelfLayTeam3@hdcymru.co.uk

Llofnodi terfynol ar gyfer safle

Llofnodi terfynol i'r safle - bydd gan y brif bibell newydd sydd wedi'i gosod gyfnod atebolrwydd o 12 mis a fydd yn dechrau unwaith y bydd y brif bibell newydd wedi'i chomisiynu (gellir gweld y dyddiad hwn ar y dystysgrif breinio); cyfrifoldeb yr SLP a'r Datblygwr ydy sicrhau y caiff unrhyw asedau cysylltiedig uwchlaw'r ddaear eu diogelu rhag difrod tra bydd y safle'n cael ei adeiladu. Pan fydd y cyfnod atebolrwydd ar fin dod i ben, bydd cynrychiolydd o HD ar gael i gynnal taith gerdded o gwmpas y safle er mwyn nodi unrhyw waith adferol sydd ei angen; unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, neu os nad oes angen unrhyw waith adferol, bydd y safle'n cael ei lofnodi drosodd yn derfynol a bydd yr SLP yn cael ei ryddhau rhag atebolrwydd am ddiffygion.

Mabwysiadu

* Gwaith sy'n agored i gystadleuaeth ydy gwaith y gellir ei gyflawni gan SLP - gweler Polisi Hunan-osod ac Adendwm Cwmni-Benodol HD.